# Tegan

Yn y cyfrifiadur,
mae dy gysur,
ond be am dy ffrindiau
tu hwnt i'r sgrin?
Cymaint haws yw cuddio'n
fan hyn ar dy ben dy hun.
Be am bethau y-byd-go-iawn?
Ydi bod fan hyn *wir*
yn gwneud dy galon yn llawn?

Tegan, Tegan,
anadla yn ddwfn,
does dim rhaid i bethau
deimlo mor llwm.

*Mae* gen ti ffrindiau,
rhai sydd am estyn llaw,
ffrindiau go iawn
fel haul ar ôl glaw.

Efallai bod Peaches
yn helpu ar brydiau,
ond ai dyma Tegan
yn byw ar ei gorau?

Mae chwarae gem gyfrifiadur
yn hwyl ambell dro,
ond Tegan, tyrd
i fwynhau'r awyr iach
unwaith eto.


© Hawlfraint BBC